**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd**

**Hydref 2012**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol – y Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio – Banc Buddsoddi Gwyrdd

*Cefndir*

1. Cyflwynwyd y Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio[1] ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 20 Mai 2012 gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesi a Sgiliau. Cafodd y Bil Ail Ddarlleniad ar 11 Mehefin 2012. Cynhaliodd Tŷ'r Cyffredin y diwrnod olaf o'r cyfnod adrodd a thrydydd darlleniad y Bil ar 17 Hydref. Bydd y Bil yn awr yn cael ei anfon i Dŷ'r Arglwyddi i gael ei ystyried.

2. Mae chwe rhan i'r Bil, ond mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ymwneud â Rhan 1 yn unig (adrannau 1-6) mewn perthynas â'r Banc Buddsoddi Gwyrdd.

3. Byddai'r Bil yn newid y gyfraith mewn gwahanol ffyrdd mewn gwahanol rannau o'r DU. Mewn perthynas â Rhan 1, mae'r Nodiadau Esboniadol yn nodi bod Rhannau 1 (Banc Buddsoddi Gwyrdd y DU) a 6 (Materion amrywiol a chyffredinol) yn rhychwantu'r DU gyfan. Mewn perthynas â Chymru, mae'r nodiadau'n nodi:

> *"Westminster will not normally legislate with regard to devolved matters falling within the legislative competence of the National Assembly for Wales. Certain of the provisions of the Bill extending to Wales fall within the legislative competence of National Assembly for Wales. The consent of the National Assembly for Wales is therefore being sought for them through a legislative consent motion."*

4. Mae Banc Buddsoddi Gwyrdd y DU yn gwmni cyhoeddus a sefydlwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan *Ddeddf Cwmnïau 2006* i hwyluso a datblygu buddsoddiad yn yr economi gwyrdd. Bydd cymalau yn y Bil:

– yn sicrhau bod Banc Buddsoddi Gwyrdd y DU ccc dim ond yn ymwneud â gweithgarwch sy'n cyfrannu at gyflawni un neu fwy o'r 'dibenion gwyrdd' a

[1] Ar gael yn: http://services.parliament.uk/bills/2012-13/enterpriseandregulatoryreform.html

ddiffinnir yn y Bil (fel gwella effeithlonrwydd wrth ddefnyddio adnoddau naturiol; gwarchod neu wella'r amgylchedd naturiol);

- yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud ymrwymiad i Fanc Buddsoddi Gwyrdd y DU ccc er mwyn hwyluso ei annibyniaeth weithredol.

- yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol roi cymorth ariannol i'r Banc, yn ogystal â gosod rhwymedigaethau penodol cryfach o ran adrodd a chyfrifo.

*Materion i'w hystyried*

5. Gosododd y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio[2] ar 10 Gorffennaf 2012.

6. Trafododd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm ar 17 Gorffennaf 2012. Cytunodd i'w gyfeirio i'r Pwyllgor Menter a Busnes ("y Pwyllgor") a'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd i graffu arno.

7. Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm erbyn 1 Tachwedd 2012. Bwriedir trafod y cynnig yn y Cyfarfod Llawn ar 6 Tachwedd 2012.

*Ein barn*

8. Nodwn fod bwriad i'r Banc Buddsoddi Gwyrdd weithredu ar sail y DU ac y bydd busnesau felly mewn sefyllfa i gael gafael ar arian i ddod â budd i'r prosiectau gwyrdd priodol yng Nghymru.

9. Ystyriwn ei bod yn briodol i Senedd y DU ddeddfu ar y mater hwn, fel y disgrifiwyd ym Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru.

10. Gan hynny, nid yw'r Pwyllgor yn gwrthwynebu defnyddio Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol fel y cynigwyd gan Lywodraeth Cymru.

---

[2] Ar gael yn: http://www.assemblywales.org/cy/bus-home/bus-business-fourth-assembly-laid-docs.htm?act=dis&id=236311&ds=7/2012